

annogaethau i bobl ieuainc yr Eglwys, a dychwaledigion y Diwygiad. Dinbych: Gee a'i Fab, 1906.

WILLIAMS, T. *Adgofion am Ddiwygiad 1904-05 yn Nhrefynon*. Dolgellau, 1913.

*Rhai cylchgronau, a newyddiaduron, sy'n ymddrin â Diwygiad '04-'05*

BROOKES, G. Lloyd. Atgofion am y Diwygiad. *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* (169) 1971 tt.121-127.

DAVIES, J. Glyn. Y Diwygiad yn Sir Fynwy. *Y Drysorfa* (75/899) Medi 1905 tt.401-402.

DAVIES, R.R. Y Diwygiad yn Sir Aberteifi. *Y Drysorfa* (75/892) Chwefror 1905 tt.65-66.

Diwygiad yn Ne Cymru. *Y Cymro* Tachwedd 24ain, 1904 t.5 col.1-2; siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin.

Y Diwygiad. Golygfeydd Rhyfedd. *Y Cymro* Rhagfyr 1af, 1904 t.3 col. 1-5; Rhagfyr 8ed t.3 col.1-5; t.5 col.1-3; Rhagfyr 15ed t.3 col.1-5; t.5 col.1-2; Rhagfyr 29ain, 1904 t.3 col. 1-4; t.5 col. 1-2.

Diwygiad 1904-05. *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* (97/2) Chwefror 1905 tt.65-67.

EVANS, D. Tecwyn. Y Diwygiad. Y Deheudir. *Y Cymro* Rhagfyr 22ain, 1904 tt.4-5 col.5' 1-3; t.8 col. 1-3.

EVANS, Henry. Y Diwygiad yn Sir Benfro. *Y Drysorfa* (75/897) Gorffennaf 1905 tt.305-309.

EVANS, J. Y Diwygiad yn Llŷn-Eifion. *Y Drysorfa* (75/896) Mehefin 1905 tt.254-257.

Y Diwygiad. *Yr Herald Cymraeg* Ionawr 3ydd, 1905 t.8 col.2-5; Ionawr 10ed, t.6 col.1-6; Ionawr 17eg, t.6 col.2-5; t.7 col.3-4; Ionawr 24ain t.6 col. 4-6; Ionawr 31ain t.2 col.2-5;

Chwefror 7ed t.6 col.3-5; Chwefror 14eg t.8 col.3-5; Chwefror 21ain t.6 col.1-7; Chwefror 28ain t.8 col. 2-6; Mawrth 7ed t.8 col.3-6; Mawrth 14eg t. 8 col. 2-4; Mawrth 21ain t.8 col. 4-5; Mawrth 28ain t.7 col.2-4; Ebrill 4ydd t.7 col.3-5; Ebrill 11eg t.7 col.2-5; Ebrill 18ed t. 8 col. 1-4; Mai 11eg t.8 col.1-4; Mai 16eg t.8 col. 1-4; Mai 23ain t.8 col.1-6; Mai 30ain t.8 col.4; Mehefin 6ed t.8 col. 1-5; Mehefin 13eg t.8 col. 1-5; Mehefin 20ed t.8 col.1-5; Mehefin 27ain t.8 col.1-6; Gorffennaf 4ydd t.8 col. 1-3; Gorffennaf 11eg t.8 col. 1-2; Awst 1af 1905 t.8 col.6.

GRIFFITHS, D.R. Amddiffyniad. *Dysgedydd* Awst 1953 tt.177-179; *Gw. hefyd* PEATE, I.C. isod.

HERBERT, J. Atgofion personol. Y Diwygiad (1904) *Seren Gomer* Tachwedd 1944 tt.126-129.

HUGHES, H.O. Y Diwygiad yn Nyffryn Clwyd. *Y Drysorfa* (75/898) Awst 1905 tt.355-359.

HUGHES, J.H. Y Diwygiad yn Nwyrain Meirionydd. *Y Drysorfa* (75/899) Medi 1905 tt.408-411.

JENKINS, Kathryn. J. T. Job a Diwygiad 1904. *Cylchgrawn Haries y Methodistiaid Calfinaidd* (8) 1984 tt.37-44.

J.H. Y Diwygiad - Odfa ym Môn. *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* (97/8) Awst 1905 tt.312-317.

JOHN, W. Y Diwygiad yn Casllwchwr. *Y Drysorfa* (75/892) Chwefror 1905 t.72.

JONES, J.R. Y Diwygiad yng Ngorllewin Meirionydd. *Y Drysorfa* (75/900) Hydref 1905 tt.459-463.

JONES, M.H. Y Diwygiad yn sir Gaerfyrddin. *Y Drysorfa* (75/896) Mehefin 1905 tt.250-253.

JONES, R. Y Diwygiad yn Arfon. *Y Drysorfa* (75/897) Gorffennaf 1905 tt.298-301.

LEWIS, Richard H. Trem yn ôl; dywediadau'r diwygiad. *Barn* (200) Medi 1979 tt.118-119.

LLOYD, D.T. Meddyliau ynghylch y Diwygiad. *Y Drysorfa* Rhagfyr 1955 tt.253-260.

MANUEL, T. Y Diwygiad 1904. *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* (97/1) Ionawr 1905 tt.25-28.

PARRY, Owen. Y Diwygiad ym Môn. *Y Drysorfa* (75/895) Mai 1905 tt.201-204.

PEATE, I.C. Diwygiad Evan Roberts. *Dysgedydd* Mawrth-Mai, 1953 tt.65-67; 88-91; 113-116; *gw. hefyd* GRIFFITHS, D.R. uchod (yn) *Cylchgronau, a Newyddiaduron*.

REES, Evan. Y Diwygiad yn Mrycheiniog a Maesyfed. *Y Drysorfa* (75/898) Awst 1905 tt.364-366.

RHYS, Beti. Dyfed ar y diwygiad. *Cristion* (65) 1994 tt.7-8.

RICHARDS, John. Adlais o'r Diwygiad. Llythyr o Aberhosan at rai o'r deheudir. *Y Cylchgrawn Efengylaidd* (16/5) Medi-Hydref 1977 tt.25-27.

ROBERTS, Ernest. Atgofion Diwygiad 1904-05. *Porfeydd* (14) Mawrth-Ebrill 1982 tt.56-58.

**DIOLCHIADAU:** Dymunaf ddiolch am bob cymorth i Archifdy Gwynedd; Llyfrgell y Brifysgol, Bangor; Llyfrgell Gyhoeddus, Caernarfon ac i'm cymar am ei hir-amynedd.

## Adolygiad

*Glorious Rhyl a peep at its past*, Philip Lloyd, cyhoeddwyd gan yr awdur, tud. 48, pris £5.95

Âr awdur ati yn y gyfrol hon i'n tywys ar hyd hanes hynod a diddorol datblygiad Y Rhyl gan gyfeirio, yn y dechrau, at y ffaith nad oes crybwyll o gwbl am y dref yn y gyfrol *Tours in Wales* gan Thomas Pennant (1784). Dengys, hefyd, nad oedd Rhyl yn bod hyd yn oed ar fap 1800. Yr unig gyfeiriad at y lle cyn yma lle saif Y Rhyl heddiw ydoedd y ddau dŷ, sef Rhyl Hall ar yr hyn a elwir heddiw yn Vale Road, a Phlas Tirion ar yr arfordir.

Bu'n rhaid aros tan y 1820au am y cyfeiriad cyntaf pan ddechreuodd Y Rhyl dyfu yn dref lan y môr a hynny yn rhannol oherwydd gwaith y Rhuddlan *Marsh Embankment Trust* yn draenio'r tir gwastad y mae y rhan fwyaf o'r dref wedi cael ei chodi arno. Gyda'r datblygiadau arfaethedig, tyfodd Y Rhyl yn gyflym, ac erbyn 1852 wynebwyd y ffyrdd, goleuwyd y strydoedd ac roedd y cyflenwad dŵr yn weithredol.

Yn 1867, agorwyd y Pier a oedd 785 llath o hyd, ond yn 1884 bu'n rhaid ei leihau gan llath yn dilyn damwain gas. Ond gwaethygu wnaeth ffawd y Pier, a maes o law fe'i gwerthwyd i Gyngor Y Rhyl am £1000, ond yn anffodus, bu'n rhaid ei gau am gyfnod am iddo fod yn anniogel. Ail-agorwyd ef yn 1930 wedi'i gwtogi i 145 llath ond caewyd yn derfynol yn 1966 a'i dynnu i lawr yn 1972.

Âr awdur ymlaen i gyfeirio at gyfraniad pobl megis Arthur Cheetham, yr arloeswr mewn tynnu llun cynnar, o'r Rhyl. Yn ystod tymor y gaeaf, teithiai i

ddangos ffilmiau o dan enw y '*Silvograph Animated Show*'. Wedi 1906 aeth ati i agor cinema'u o amgylch Cymru, yn Y Rhyl, wrth gwers, Aberystwyth, Bae Colwyn, a hyd yn oed Manceinion.

Yn 1911 agorwyd y trê'n bach yn y Marine Lake a cheir hynt a helynt y trê'n dros y ganrif ddiwethaf, er nad y Marine Lake oedd yr unig atyniad yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adeiladwyd Theatr y Palas a'r Gerddi, a oedd yn fenter feiddgar. Ond oherwydd camweinyddiad, byrhoedlog fu ei thynged. A dim ond wal fawr sydd ar ôl bellach i ddynodi'r lle cyn.

Ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â'r Rhyl bedair gwaith. Cynhaliwyd yr

achlysur yn 1953 a 1986 ar dir amaethyddol y tu allan i'r dref, ond yn ystod 1992 a 1994, y Gerddi Gaeaf oedd y lleoliad.

Roedd ymwelwyr yn dod ar y trê'n i'r Rhyl ers 1848 pan gyrhaeddodd y brif lein o Gaer yno. A phan sefydlwyd y Gwyliau Banc, gan y Ddeddf Seneddol yn 1871, cynyddodd yr ymwelwyr, yn enwedig yr ymwelwyr dyddiol, yn gyflym iawn.

Cyfeirir hefyd at sefydlu y bad achub cyntaf, a hynny yn 1850. Fe'i sylfaenwyd ar gynllun William Beeching o Great Yarmouth yn gyntaf, ond wedi damwain anghueol penderfynodd y pwyllgor lleol brynu un a ddyfeiswyd gan y teulu Richardson o Rosygwalia, ger y Bala.

Cyfeirir at Vivian Hewitt, yr hedfanwr arloesol, a sefydlodd weithdy ar lain awyr ar y Foryd. Roedd ei fam yn Gymraes a sicrhodd fod yntau hefyd yn dysgu'r iaith. Ef oedd y cyntaf i hedfan o Gaerdybi i Ddilyn, a chafodd groeso tywysogaidd gan drigolion y Rhyl ar ei ddychweliad.

Cefais fodd i fyw wrth ddarlenn y gyfrol hynod ddiddorol hon, a dwi'n sicr y bydd y rhai hynny ohonom a ddaeth i adnabod y dref fel cychfan triapiau haf Ysgolion Sul y gorffennol yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf yn cael pleser mawr o'i darllen.

Mae'n gyfrol sy'n dangos gwaith ymchwilio helaeth, ac mae'n llawn o luniau diddorol iawn - a llawer ohonynt o'r sleidiau magic lantern a gasglodd yr awdur. Rwy'n sicr y ceuch fodd i fyw yn pori drwy'r gyfrol.

